# Pennaeth Polisi'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol (Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd)

**Dyddiad Cau:** 20 Ionawr 2020, canol ddyd **Dyddiad y Cyfweliad:** i gael ei gadarnhau

| | |
|---|---|
| **Graddfa/Cyflog:** | Graddfa 7 (SCP 52-55) £57,769 - 69,032 |
| **Cyfnod:** | Cynigir y swydd am dymor penodol tan fis Mawrth 2021 drwy secondiad neu gytundeb cyfnod penodol. |
| **Yn atebol i:** | Cadeiryddion y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol |
| **Lleoliad:** | Tŷ'r Llywodraeth Leol, Caerdydd (mae hon yn swydd dros Gymru gyfan, felly disgwylir teithio rheolaidd i Gaerdydd ac ar draws Cymru) |
| **Swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol** | Ydi |
| **Cymraeg yn hanfodol** | Nac ydi |

## Ynglŷn â'r Swydd

Wedi'i leoli yn yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gyfarwyddiaeth Dai yn y CLlLC, bydd y deiliad swydd yn rheoli rhaglen ac yn darparu arweinyddiaeth i'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol. Bydd y deiliad swydd yn gweithio i gyd gadeiryddion y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, gan ddarparu cyngor a chymorth arbenigol ar holl agweddau strategaeth ac arfer comisiynu iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yn gyfrifol am lywio gwaith y bwrdd a sicrhau bod ei gynllun gwaith yn cael ei ddarparu'n llwyddiannus.

### Dyletswyddau a Chyfrifoldebau:

- Arwain y gwaith datblygu a darparu Rhaglen Waith Strategol y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn llwyddiannus, ar y cyd â'r cyd gadeiryddion.
- Parhau i ddatblygu a choethi rhaglen waith barhaus ar y cyd â Chadeiryddion y Bwrdd, gan ddarparu'r newyddion diweddaraf ac adroddiadau cynnydd yn rheolaidd.
- Gweithredu fel Ysgrifennydd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol mewn agweddau ar ei weithrediad.
- Gweithredu fel cyswllt allweddol rhwng y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a;
    - Chyd-gadeiryddion
    - Aelodau unigol y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol
    - Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru a Chyfarwyddwyr Iechyd perthnasol
    - Awdurdodau lleol a byrddau iechyd sy'n comisiynu arweinwyr ledled Cymru.

- Uwch swyddogion Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cyfarwyddwyr Iechyd a Chymdeithasol
    - Partneriaid a budd-ddeiliaid eraill, gan gynnwys darparwyr
- Arwain y gwaith o ymgymryd a hwyluso gwaith y Bwrdd fel y nodir yn ei gynllun gwaith blynyddol a goruchwylio ei ddarpariaeth, gan gynnwys arwain ar y gwaith o gyflawni prosiectau penodol.
- Cysylltu â grwpiau rhanbarthol, lleol a chenedlaethol priodol er mwyn llywio gwaith y Bwrdd.
- Mynychu Cyfarfodydd y Fforwm Darparwyr Cenedlaethol ar ran y Bwrdd a chyfarfodydd cysylltiedig eraill.
- Gweithredu fel Cynrychiolydd y Bwrdd mewn ystod o gyfarfodydd aml-asiantaeth i godi ymwybyddiaeth o waith y Bwrdd, yn ôl y gofyn.
- Datblygu a chynnal strwythurau llywodraethu, sy'n addas at y diben ac yn cyflawni rhaglen waith strategol y Bwrdd.
- Cynhyrchu a chyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd a phartneriaid eraill yn ôl y gofyn.
- Cynhyrchu adolygiad blynyddol o waith y Bwrdd.
- Cynhyrchu adroddiadau data meintiol ac ansoddol sy'n ymwneud â chomisiynu cenedlaethol
- Datblygu data rheoli perfformiad yn ymwneud â chomisiynu er mwyn llywio penderfyniadau strategol
- Gohebu ag asiantaethau amrywiol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ar ran y Bwrdd.
- Cyfrannu at y gwaith o gydlynu, datblygu a goruchwylio/cydlynu darpariaeth hyfforddiant penodol sy'n ymwneud â chomisiynu.
- Rhoi cyngor ac arweiniad i ymarferwyr, rheolwyr ac uwch reolwyr gan yr holl aelod-asiantaethau ar faterion cenedlaethol.
- Nodi a lledaenu arfer da yng Nghymru a thu hwnt.

## Manylion am yr Unigolyn

### Profiad

**Hanfodol:**

- Gwybodaeth fanwl am bolisïau ac arferion comisiynu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol
- Profiad o arwain gwaith comisiynu strategol gofal cymdeithasol ac iechyd
- Sgiliau Rheoli Prosiectau a chynllunio busnes
- Y gallu i weithio ar y cyd ar draws sefydliadau aml-asiantaeth
- Gwybodaeth a phrofiad o waith comisiynu gofal cymdeithasol ac iechyd a'r rhaglen genedlaethol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd
- Sgiliau dadansoddi a phrofiad o gymhwyso'r sgiliau hyn yn ymarferol

- Profiad o ddiffinio a chyflawni amcanion mesuradwy
- Y gallu i weithio o dan bwysau a chydymffurfio â'r dyddiadau cau i gwblhau tasgau.
- Profiad a dealltwriaeth o weithio mewn cyd-destun partneriaeth a phrofiad o gadeirio cyfarfodydd a hwyluso fforymau aml-asiantaeth
- Profiad o ddatblygu cytundebau a phrotocolau mewn amgylchedd partneriaeth
- Profiad o weithio gydag asiantaethau eraill ar draws ffiniau proffesiynol
- Profiad amlwg o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac arwain prosesau comisiynu/caffael
- Profiad o ddatblygu'r farchnad iechyd a gofal cymdeithasol

**Gwybodaeth a Sgiliau**

- Ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun ehangach newid a datblygiad ym maes comisiynu strategol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol
- Gwybodaeth drylwyr o rôl, swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau comisiynu
- Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r gwahaniaethau, buddion a heriau allweddol sy'n ymwneud â darparwyr gwerth preifat, cyhoeddus a chymdeithasol
- Dealltwriaeth o'r rôl reoli ac arwain sy'n ofynnol i ddylanwadu ar newid neu drawsnewid

**Rhinweddau Personol**

- Brwdfrydig, ymrwymiad i gyflawni nodau
- Y gallu i deithio i gyfarfodydd cenedlaethol fel sy'n ofynnol
- Y gallu i ymgysylltu ac arwain grwpiau o unigolion gwahanol, traws-sector

**Dymunol:**

- Y gallu i ddarparu arweiniad ac ymgynghoriad proffesiynol i sefydliadau, timau a staff unigol ym maes comisiynu
- Profiad o gyflwyno/hyfforddi a lledaenu gwybodaeth i staff proffesiynol mewn cyd-destun aml-asiantaeth
- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

# Gwybodaeth am Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru

Mae'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol wedi cael ei sefydlu er mwyn gwella ansawdd comisiynu yng Nghymru a datblygu arferion effeithiol o ran comisiynu integredig rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Mae aelodau'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o: Awdurdodau Lleol; y GIG; Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol; Darparwyr; y Trydydd Sector; Gofal Cymdeithasol Cymru; CLlLC; a Llywodraeth Cymru.

Prif amcanion y Bwrdd yw:

- rhoi llais awdurdodol a bod â rhan ganolog wrth greu gweledigaeth a gosod cyfeiriad cenedlaethol i gomisiynu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles yng Nghymru.
- cynnal persbectif cenedlaethol ar farchnadoedd a phennu cyfeiriad i ddatblygu marchnad iechyd a gofal cymdeithasol sefydlog ac amrywiol yng Nghymru sy'n cynnwys cydbwysedd priodol o ddarpariaeth sector cyhoeddus, preifat a gwerth cymdeithasol.
- gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chefnogi rhwydweithiau comisiynwyr sy'n darparu dull cydlynol o wella arferion comisiynu ar draws Cymru.
- dylanwadu ar bolisi cenedlaethol a chynghori budd-ddeiliaid allweddol ar y dulliau a'r adnoddau sydd eu hangen i gomisiynu'n effeithiol i gael gwasanaethau iechyd a gofal cynaliadwy.
- cymell sefydliadau i ddatblygu, gweithredu a rhannu arferion da a darparu cymorth i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â chomisiynu'n rhanbarthol a chyfuno cronfeydd yn effeithiol.
- cefnogi *Cymru Iachach* trwy gomisiynu gwasanaethau iechyd a gofal yn rhanbarthol, yn integredig ac yn effeithiol.
- creu hinsawdd ffafriol, gyda phrosesau priodol i gomisiynwyr a darparwyr ymgysylltu'n adeiladol â'i gilydd er mwyn ymateb yn effeithiol i anghenion defnyddwyr gwasanaethau (o bob oed).

Mae'r Bwrdd ei hun yn adrodd trwy'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar Ofal Cymdeithasol a Bwrdd Trawsnewid *Cymru Iachach* ac mae'n cael ei gefnogi gan Grŵp Gweithredol. Mae cyllid wedi'i neilltuo gan Lywodraeth Cymru am ddwy flynedd i ddechrau (2019-21) i gefnogi gweinyddu a chyflawni rhaglen waith y Bwrdd, a CLlLC fydd yn cynnal y staff/trefniadau gweinyddol sy'n cefnogi'r Bwrdd.

## Gwnewch gais Rŵan!

I gael sgwrs gychwynnol ynglŷn â’r swydd a’r sefydliad, cysylltwch â Shelley Davies, Llywodraeth Cymru on 03000 255700.

I wneud cais, anfonwch lythyr eglurhaol gyda ffurflen gais wedi ei llenwi erbyn y dyddiad cau 20 Ionawr 2020 canol dydd i:

Rheolwr Adnoddau Dynol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd CF10 4LG
e-bost recruitment@wlga.gov.uk

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweliad ar i gael ei gadarnhau yn Nhŷ Llywodraeth Leol, Caerdydd. Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr ar y rhestr fer gwblhau tasg cyn bod yn bresennol yn y cyfarfod, yn ogystal â thasgau cyn cyfweliad ar y diwrnod, wedi’i ddilyn gan gyfweliad gyda phanel dethol.